Deuawd 16-21 oed

I Cennydd ac Angharad

(ar ddydd eu priodas)

Dewch i ganu am yr haf hirfelyn,
i yfed gwin poteli'r ddinas hael,
i ddilyn nodau cariad ar y delyn
a dawnsio'n rhydd yn neuadd fawr yr haul,
dewch yn dystion llon i weld yr uniad,
i weld y fodrwy aur a'r rhosyn coch,
gweld yr addunedau yn gyffroad,
a gweld y ddau yn dawnsio foch ym moch.

Ewch wedyn, wedi gweld a chlywed hyn,
ewch gan fendithio gyda'r gwin a'r Gair,
gan daflu'ch cariad fel confffeti gwyn
dros ben y ddau, ewch â'ch cyfarchion taer
i'w gwylio gyda'i glydd, ar eu taith
a'u danfon ar eu ffordd i'w gwynfyd maith.

Rhennir y pennill cyntaf yn ddau – fesul pedair llinell – a dylid dileu cwpled cyntaf y pennill olaf.

Hywel Griffiths